# Y PRENTIS

Pe bai'r Arglwydd Sugar yn gi, rhyw fath o ddaeargi fyddai – un o'r cŵn hynny sydd â chôt fer, arian fel weiren. Daeargi sy'n noethi ei ddannedd. Dyna aeth trwy fy meddwl wrth i mi ei wylio'n brasgamu i storfa enfawr ble'r oedd y ffotograffydd wedi gosod ei oleuadau o flaen cadair ledr goch.

'Mae gennych saith munud,' cyfartha Sugar.

Gŵyr y ffotograffydd y rheol hon a gŵyr i beidio â gofyn i'r Arglwydd bwyntio'i fys at y camera oherwydd gwna hynny pan ddywed y frawddeg enwog "You're fired!" ar *The Apprentice.*

Mae'r ystafell ar drydydd llawr Amshold Ltd, adeilad sinc enfawr ar stad ddiwydiannol yn Swydd Essex, pencadlys ymerodraeth busnes Sugar. Mae'r storfa yn llawn o nwyddau dydd i ddydd unrhyw gwmni, fel beiros a phapur. Ond yma hefyd mae hen gyfrifiadur Amstrad o'r 1980au. Ar hwn y gwnaeth Sugar ei ffortiwn sydd, bellach, oddeutu £840 miliwn.

Unwaith mae'r tynnu lluniau drosodd, i ffwrdd â ni i'w swyddfa. Ar y wal y tu ôl iddo mae lluniau o'r teulu - ei wraig (ers 43 mlynedd) a'i dri phlentyn. Mae'r rheiny bellach yn oedolion, a dau ohonynt yn gweithio i'w tad.

Egyr y cyfweliad gyda chwestiwn uniongyrchol, 'Rŵan ta, be alla i wneud i chi?'Ac mae'n edrych ar ei oriawr. Nid edrychiad slei mohono! Mae'n eithaf tebygol ei fod yn



gwneud hyn gyda phawb oblegid disgrifia ei hun fel dyn diamynedd sy'n diflasu'n hawdd.

Er hynny, rhaid i bopeth fod mewn trefn – o'r tafelli cig ar ei blat i'r lluniau ar y wal. Mae ganddo obsesiwn am feicio ac efallai bod rhythm cyson pedlo beic yn therapi iddo.

Awgrymaf hyn oherwydd rhyw ugain munud i mewn i'r sgwrs mae'n gosod y beiros ar ei ddesg yn unionsyth gyda'r papur. Pan ofynnaf a yw hyn yn arwydd o broblem seiciatryddol, dywed â'i wyneb yn ddi-wên, 'Mm, mae 'na ddyn mewn côt wen y tu allan yn aros amdana i. Gwallgofrwydd rhannol. Dydw i ond yn symud y beiro yma ddau filimetr.' Mesura gyda phren mesur. Gwneud cyff gwawd ohono'i hun!

Yr hyn a fyddai o ddiddordeb i seiciatrydd ydy pam mae Alan Sugar fel pe bai'n cael pleser o wneud gelynion. Ymunodd â Twitter y llynedd a chyn pen dim roedd ef a Kirstie Allsopp yng ngyddfau ei gilydd. Dadleua yntau,'Dydw i ddim yn gwneud gelynion yn fwriadol. Dw i'n credu mewn siarad yn blaen a dydy pobl ddim yn hoffi clywed y gwir. Ond mae gen i bobl sydd wedi gweithio i mi ers chwarter canrif. Yr unig rai rydw i'n poeni am eu barn ydy fy ngwraig, fy mhlant a'm gweithwyr.'

Alan oedd yr ieuengaf o bedwar o blant a chafodd ei fagu mewn fflat cyngor yn Hackney. Dechreuodd greu busnes trwy werthu leitars ac erials ceir o gefn fan. Dilyn ei dad mae e trwy fod mor benderfynol a dyfalbarhau? Nage, meddai ef, gan fod ei dad yn ofalus iawn a dim menter yn perthyn iddo.

Roeddwn innau'n mentro wrth ofyn y cwestiwn nesaf! Ydy o'n mynd ynghlwm yn emosiynol o gwbl?

'Ydw, yn arbennig yn y rhaglen olaf ond un oherwydd mae 'na bobl sy wedi bod wrthi â'u deg ewin yn ceisio eich plesio ers 11 wythnos a fedran nhw i gyd ddim ennill. Dw i'n meddalu tua'r diwedd.

Cred Sugar fod pobl ifanc yn meddwl nad oes rhaid iddynt fynd trwy'r cyfnod o dorchi llewys. Maen nhw'n edrych ar y dyn ddyfeisiodd Facebook, yr un ddyfeisiodd You Tube, yr un ddyfeisiodd Amazon ac yn meddwl y gallant hwythau greu gwyrthiau. Nid dyna realiti.

Ydy o'n edifar na chafodd addysg prifysgol? 'Mi fyddwn i wedi gwastraffu 3 blynedd a cholli £200,000.  Ches i ddim colled ymenyddol chwaith. Rydw i wedi bod ym mhrifysgol bywyd ac fe fyddwn i'n dweud wrth y rhai sy'n dod allan o goleg gyda'u gradd, 'Croeso i'r byd go iawn ble byddi di'n dechrau dysgu'.

Pryd mae'n mynd i roi'r gorau i *The Apprentice*? 'Mae gen i ddigon o arian, oes, ond rydw i wrth fy modd yn ei wneud. Mae'n braf cael fy adnabod trwy *The Apprentice*, ond yn bwysicach fyth, dw i'n cael gwefr o weld sgiliau *entrepreneur* pobl ifanc yn datblygu.'